Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Porthmadog

**Ysgol Eifion Wyn**
**Porthmadog**
**Portmadog**
**Gwynedd**
**LL49 9PA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Porthmadog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Porthmadog |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Erin Wyn |
| Person â gofal | Anna Roberts |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 21 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Gwener 8:50-15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 07/07/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 07/05/2014 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 08/03/2023 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Amh** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Ehangu’r cyfleoedd i’r plant ddatblygu medrau creu marciau ar draws yr holl darpariaeth

A2 Cynllunio gwell profiadau o ran hyrwyddo dealltwriaeth y plant o amrywiaeth a gwahanol ddiwylliannau

A3 Sicrhau bod yr holl gyfarpar yn yr ardal allanol yn bodloni gofynion diogelwch

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn teimlo'n hapus yn y lleoliad ac wedi ymgartrefu'n dda yno. Mae'r rhan fwyaf yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac yn trosglwyddo oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr heb drafferth. Maent yn gwenu wrth gyrraedd ac mae'r ychydig iawn sy'n ansicr yn ymlacio'n gyflym wedi iddynt dderbyn cysur gan ymarferwyr. Dengys bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt am sylw yn hapus a chyfforddus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn gyda phlant eraill. Er enghraifft, maent yn ddefndio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol i wneud lluniau gyda'i gilydd. Dengys plant falchder yn eu gwaith, er enghraifft wrth ddangos dyn eira a greuwyd yn y toes i ymarferwyr.

Mae gan blant lais cryf ac maent yn gwneud penderfyniadau am yr hyn maent yn dymuno'i wneud. Mae bron bob un yn symud rhwng gwahanol weithgareddau yn hyderus ac yn dilyn eu hoffterau personol yn effeithiol. Er enghraifft, bu dau blentyn yn defnyddio offer adeiladol i ddynwared trwsio'r bwrdd yn yr ardal chwarae rôl. Yn ogystal, maent yn dewis eistedd wrth ochr eu ffrindiau yn ystod amser byrbryd ac amser cylch. Maent yn mwynhau symud o un weithgaredd i'r nesaf, ac yn dyfalbarhau a chanolbwyntio am gyfnodau priodol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn chwarae yn y gegin gan ddynwared paratoi brecwast i'r ymarferydd. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn brysur wrth ymgymryd â'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnig iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd ati i hunangofrestru gyda peth cymorth, ar ôl cyrraedd gan osod eu llun ar y goeden.

Mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn dda iawn, yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n hapus yn y twba tywod i lenwi'r tebot â thywod. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol iawn gydag ymarferwyr a'u ffrindiau ac yn mynd at ymarferwyr i'w cynnwys yn eu chwarae neu am gysur.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae ysgogol. Maent yn cael dewis da o gyfleoedd chwarae rhydd yn y brif ystafell ac yn yr ardal allanol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibyniaeth a hunangymorth priodol. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl, agor a chau stampiau lliw ac adeiladu gyda blociau. Mae llawer yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach, gwisgo cot a thywallt diod adeg byrbryd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da ar gyfer plant ac mae perthynas agos a naturiol iawn rhyngddynt. Maent yn adnabod y plant yn dda iawn, yn parchu

eu diddordebau, eu hoffterau a'u gofynion personol. Er enghraifft, maent yn ymateb yn sensitif i blant sy'n dewis peidio â chymryd rhan mewn gweithgaredd. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Maent yn gweithredu polisïau priodol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y plant yn dod â byrbryd iach o adref ac maent yn cynnig llaeth a dŵr i yfed. Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn hyderus ar sut i weithredu petai ganddynt bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus mewn perthynas ag iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau ac yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu yn ôl eu hoedran a'u gallu. Yn ogystal, maent yn dilyn gweithdrefnau priodol ac yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau, digwyddiadau ac wrth weini meddyginiaeth. Mae'r cofnodion yn cynnwys llofnodion ymarferwyr, rhieni neu ofalwyr. Maent yn ymarfer driliau tân yn rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r trefniadau hyn.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o'r polisi rheoli ymddygiad, a maent yn gweithredu fel modelau rôl da. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol gyda'r plant, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod y plant yn gartrefol ac yn hapus gan drafod cyfleoedd chwarae gyda'r plant a holi cwestiynau pen agored yn fedrus iawn. Er enghraifft, maent yn sgwrsio am wrthrychau o wahanol faint. Mae ymarferwyr yn dilyn prosesau effeithiol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae addysgu'r ymarferwyr yn datblygu ystod eang o fedrau da ar gyfer y plant, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae dulliau addysgu teyrngar yr ymarferwyr yn cymell y plant i gydweithio'n effeithiol. Maent yn ddeallus wrth annog y plant i arbrofi wrth chwarae. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n ddysgwyr hyderus. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn herio'r plant i ddidoli siapiau tri-dimensiwn i adeiladu tyrau tal, byr, bach a mawr yn annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n feddylgar ac yn cefnogi'r plant i ddysgu trwy amrediad o heriau ymarferol. Maent yn darparu cwricwlwm cytbwys, sy'n dilyn awgrymiadau a diddordebau'r plant yn bwrpasol. Maent yn darparu gweithgareddau difyr, sy'n galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau gwybyddol yn dda. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn herio'r plant i ddarlunio hunan bortreadau gyda theclyn electronig ar fwrdd rhyngweithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant, fel defnyddio apiau addysgol ar lechi electronig yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn herio plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau rhifedd. Er enghraifft, caiff y plant gyfleoedd da i rifo cnau castan a chymeriadau pren, a'u rolio lawr cafnau, naill ai'n gyflym neu'n araf. Yn ogystal, cânt gyfleoedd i lenwi blychau â thywod i gymharu cyfeintiau gwahanol. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau perthnasol i ddatblygu

medrau llythrennedd y plant. Maent yn holi'r plant yn dda wrth iddynt greu marciau gyda phaent a sialc yn ystod tasgau penodol. Fodd bynnag cyfleoedd prin sydd i'r plant ddatblygu medrau modur man wrth rheoli gwahanol offer yn annibynol ar draws ardaloedd y ddarpariaeth.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth eu hannog i ddringo a neidio ar gyfarpar anturus, dawnsio i rythmau gwahanol a gyrru beiciau a sgwteri ar y buarth. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol diddorol fel creu offerynnau cerdd trwy ddefnyddio poteli plastig a'u llenwi gyda phasta a reis. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn annog y plant i gasglu brigau i greu cestyll a choginio mês mewn woc wrth y gegin fwd, tra'n chwarae rôl cogydd.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n effeithiol i ddathlu amrywiaeth a dealltwriaeth aml-ddiwylliannol y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn effeithiol yn ystod chwarae'r plant, sy'n cynnig cyfleoedd da i'r plant ystyried llwyddiant eu hymdrechion. Maent yn cynnal trafodaethau synhwyrol gyda'r plant ar sut i wella'u gwaith. Maent yn plethu'r sgyrsiau myfyriol hyn gyda'u hasesiadau yn gelfydd er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a llyfryn cynnydd, sydd ar gael yn ystod ac ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn ddiogel, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae asesiadau risg ysgrifenedig yn gynhyn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn cadw cofnod o'r holl blant, staff ac ymwelwyr, yn sicrhau bod prif ddrysau yn cael eu cadw ar glo, ac yn gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn ddiddorol, deniadol ac yn lliwgar. Trwy arddangos ffotograffau o'r plant yn ymgymryd â gweithgareddau ac ambell i esiampl o waith y plant ar waliau'r ystafell, mae ymarferwyr yn creu ymdeimlad o falchder a pherthyn i'r plant, ac yn creu naws groesawgar i bawb sy'n ymweld â'r lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cael ei defnyddio'n ddyddiol fel rhan annatod o'r ddarpariaeth. Er enghraifft maent yn sicrhau bod y drysau o'r brif ystafell i'r ardal allanol yn agored drwy'r sesiwn sy'n galluogi'r plant i ddewis ble maent am chwarae. Mae'r amgylchedd allanol yn cynnig cyfleoedd da a chyffrous i blant chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau defnydd o'r ardal goedwig wrth ymgymryd â gweithgareddau yn yr ardal allanol. Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi chwilfrydedd a diddordeb, er enghraifft cegin fwd gydag offer amrywiol, ardal blannu ynghyd a chafnau plastig ac offer mân o ddefnydd naturiol.

Mae'r arweinydd yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol o ran eu hoedran ac o ansawdd da. Er

enghraifft, mae basgedi a silffoedd agored i'r plant ymchwilio ynddynt a llawer o ddodrefn naturiol ac o'r cartref ar gael. Fodd bynnag, mae'r arweinydd yn darparu ychydig iawn o adnoddau i annog chwilfrydedd plant am y gymdeithas ehangach.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod cyflwr yr holl gyfarpar yn yr ardal allanol yn addas. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio'n ofalus mewn amgylchedd diogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth iddynt defnyddio'r tŷ bach ac wrth newid cewyn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae eu gweledigaeth yn glir, sy'n sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n ddyfal i greu amgylchedd cynhyrchiol, sy'n hybu dysgu'r plant yn llwyddiannus. Mae athroniaeth yr arweinwyr wedi ei seilio'n gadarn ar ddarparu amgylchedd, adnoddau a gweithgareddau difyr ar gyfer y plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynnig gofal bugeiliol a thyner i'r plant, sy'n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a'r oedolion. Mae'r awyrgylch gadarnhaol hon yn cymell y plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau wrth chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ymarferwyr yn ddibynadwy ac maent yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae trefniadau rheolaidd yn eu lle i werthuso perfformiad ymarferwyr, ac maent yn goruchwylio a gwerthuso'u gwaith yn gydwybodol. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwto diogel yn cael eu gweithredu'n gywir.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau synhwyrol ac maent yn cefnogi'r ymarferwyr i gynnal safonau da. Maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn effeithiol. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr yn eu lle, sy'n cynnwys targedau priodol ar gyfer gwelliant. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae arweinwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu'r dysgu yn yr ardal goedwig. O ganlyniad, maent yn cyflwyno a thargedu gwelliannau'n gyson i ddatblygu arferion y lleoliad yn bwrpasol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau uniongyrchol gyda'r holl randdeiliaid, fel y mudiadau cefnogi, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio, er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar bryderon ac awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ystyrlon os oes ganddynt bryder ynglŷn â datblygiad eu plant.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant. Er enghraifft, maent yn mynd am dro trwy'r dref i ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd a chasglu llysiau yn yr ardd gymunedol cyn golchi a bwyta'r cynnyrch. Yn ogystal, mae'r berthynas weithredol iawn â'r ysgol yn paratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn fwriadus.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn

ddoeth. Maent yn galluogi’r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant defnyddiol, sy'n gwella’u harferion addysgu a’u cynllunio. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn effeithlon, fel offer i’r ysgol goedwig a chyfarpar digidol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2023

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2023

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 29 (3) (a) | Regulation 29 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010.  The responsible individuals must ensure staff receive regular supervision and annual appraisal. | Cyflawnwyd |
| 28 (1) (a) | Regulation 28 of The Child Minding and Day Care (Wales) Regulations 2010. The responsible individuals must ensure persons caring for children are suitable to do so. | Cyflawnwyd |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  15/05/2023

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15 Mai 2023

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2023